# NATION RADIO

Cais i newid Fformat

Ymgynghoriad

Dyddiad cyhoeddi: 10 Hydref 2013

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 7 Tachwedd 2013

# Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb gweithredol | 2 |
| 2 | Manylion a gwybodaeth gefndir | 3 |

| Atodiad | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Ymateb i'r ymgynghoriad hwn | 5 |
| 2 | Egwyddorion ymgynghori Ofcom | 7 |
| 3 | Dalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad | 8 |
| 4 | Cwestiwn yr ymgynghoriad | 10 |
| 5 | Cais i newid Fformat Nation Radio | 11 |
| 6 | Fformat Presennol Nation Radio | 18 |
| 7 | Gorsafoedd radio masnachol a chymunedol eraill yn ardal De Cymru | 19 |

## Adran 1

# Crynodeb gweithredol

1.1 Mae Ofcom wedi cael cais i newid Fformat gan Nation Radio Ltd, sy'n dal trwydded radio masnachol FM ar gyfer De Cymru, mewn perthynas â'i wasanaeth 'Nation Radio'. Mae Nation Radio Ltd yn is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i Town & Country Broadcasting Ltd.

1.2 Mae Fformat yr orsaf yn disgrifio'r math o wasanaeth rhaglenni y mae'n rhaid iddi ei ddarparu, ac mae'n rhan o drwydded yr orsaf.

1.3 Dymuna Nation Radio Ltd newid 'Cymeriad Gwasanaeth' Fformat cyhoeddedig Nation Radio, o un sy'n mynnu bod y gwasanaeth yn chwarae cerddoriaeth roc modern yn bennaf ar gyfer gwrandawyr 15-34 oed, i un sy'n mynnu bod y gwasanaeth yn chwarae cerddoriaeth sy'n canolbwyntio ar roc ac wedi'i hanelu at ddynion (heb grŵp oed targed penodol).

1.4 Dim ond os gellir bodloni o leiaf un o'r pum maen prawf a nodir yn adran 106(1A) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd) y gellir cymeradwyo cais i newid Fformat. Nodir y meini prawf yn llawn yn Adran 2 yn y ddogfen hon.

1.5 Nid ydym ni o'r farn bod cais Nation Radio yn bodloni maen prawf (a), na fyddai'r gwyriad yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol. O ganlyniad, mae'n rhaid i ni ymgynghori ar y cais.

1.6 Felly, rydym yn gofyn am sylwadau am y cais, gan roi ystyriaeth benodol i'r meini prawf newid Fformat a nodir yn Neddf Darlledu 1990.

## Adran 2

# Manylion a gwybodaeth gefndir

2.1 Mae Ofcom wedi cael cais i newid Fformat gan Nation Radio Ltd, sy’n dal trwydded radio masnachol FM lleol ar gyfer ardal De Cymru, mewn perthynas â’i wasanaeth ‘Nation Radio’. Mae Nation Radio Ltd yn eiddo i Town and Country Broadcasting Ltd.

2.2 Lansiwyd yr orsaf yn wreiddiol ym mis Tachwedd 2007 fel Xfm, ond fe’i gwerthwyd gan GCap Media ym mis Mai 2008, ac fe’i lansiwyd fel Nation Radio ym mis Mehefin y flwyddyn honno. Mae 873,636 o oedolion (15+ oed) yn Nalgylch Mesuradwy'r orsaf.

2.3 Mae Nation Radio Ltd yn awr yn dymuno newid ‘Cymeriad Gwasanaeth’ Fformat cyhoeddedig Nation Radio, o un sy’n mynnu bod y gwasanaeth yn chwarae cerddoriaeth roc modern yn bennaf ar gyfer gwrandawyr 15-34 oed, i un sy'n mynnu bod y gwasanaeth yn chwarae cerddoriaeth sy’n canolbwyntio ar roc ac wedi’i hanelu at ddynion (heb grŵp oed targed penodol).

Y Cymeriad Gwasanaeth presennol (fel y nodir yn Fformat cyhoeddedig Nation Radio):

**GORSAF ROC MODERN YN BENNAF AR GYFER GWRANDAWYR 15-34 OED. BYDD GENRES CYDNAWS ERAILL YN ATEGU’R ALLBWN, A FYDD HEFYD YN CYNNWYS CERDDORIAETH GAN ARTISTIAID LLEOL**

Dyma’r Cymeriad Gwasanaeth newydd a gynigir gan Nation Radio:

**GORSAF GERDDORIAETH SY'N CANOLBWYNTIO AR GERDDORIAETH ROC, GAN GYNNWYS CERDDORIAETH GAN ARTISTIAID LLEOL, AC WEDI'I HANELU AT DDYNION**

2.4 Dyfarnwyd trwydded De Cymru gan Ofcom ym mis Mai 2007. Ynghyd â’r cais buddugol gan GCap Medi (Xfm South Wales Ltd), daeth saith cais arall i law am y drwydded:

Talk FM South Wales Limited
David FM Limited
Kerrang! Radio Wales Ltd
Original 107 FM Ltd
South Wales Radio Ltd
Variety FM South Wales
UK Media and Radio Wales Ltd

Mae modd gweld crynodeb o’r dyfarniad yma:
http://licensing.ofcom.org.uk/radio-broadcast-licensing/analogue-radio/licensees/awards/southwales/

2.5 O dan adran 106(1A) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y’i diwygiwyd), ni fydd Ofcom ond yn cael rhoi caniatâd ar gyfer newid Fformat os yw’n fodlon bod *o leiaf* un o'r pum maen prawf statudol canlynol wedi’i fodloni:

*(a) na fyddai’r gwyriad yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol;*

*(b) na fyddai'r gwyriad yn cyfyngu ystod y rhaglenni sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau radio annibynnol perthnasol i bobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth y trwyddedwyd y gwasanaeth i ddarparu ar ei chyfer;*

*(c) y byddai'r gwyriad yn ffafriol i gynnal neu hyrwyddo cystadleuaeth deg ac effeithiol;*

*(d) bod tystiolaeth bod galw sylweddol ymysg pobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno am y newid a fyddai'n deillio o'r gwyriad, neu gefnogaeth sylweddol ganddynt iddo; neu*

*(e) y byddai (i) y gwyriad yn digwydd wrth i raglenni yn y gwasanaeth trwyddedig beidio â chael eu gwneud ar safleoedd yn yr ardal neu'r gymdogaeth y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer, ond (ii) byddai'r rhaglenni hynny yn parhau i gael eu gwneud yn rhannol neu'n gyfan gwbl ar safleoedd yn yr ardal gymeradwy (fel y diffiniwyd yn adran 314 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (cynnwys lleol a chymeriad gwasanaethau)).*

2.6 Hyd yn oed os yw Ofcom o'r farn bod y newid arfaethedig yn bodloni un neu ragor o'r meini prawf statudol uchod, efallai y bydd rhesymau (gan ddibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos) pam na chaiff Ofcom roi caniatâd ar gyfer y newid arfaethedig. Gellir gweld y meini prawf ychwanegol y bydd Ofcom yn eu hystyried wrth arfer y disgresiwn hwn yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/formats-content/changes/

2.7 Gan fod y newid a gynigir gan Nation Radio yn effeithio ar ofyniad craidd yr orsaf i fod yn orsaf roc modern yn bennaf ar gyfer gwrandawyr 15-34 oed, a bod angen aralleirio'r Cymeriad Gwasanaeth a gyhoeddwyd yn sylweddol, nid ydym o'r farn bod cais Nation Radio yn bodloni maen prawf (a) – na fyddai'r gwyriad yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol. Yn ogystal, nid yw maen prawf (e) yn berthnasol i'r cais hwn. Felly, yn unol ag adran 106ZA o Ddeddf Darlledu 1990, rydym yn ymgynghori ar y cais.

2.8 Wrth ystyried a fodlonir maen prawf (b) (na fyddai'r newid yn cyfyngu ystod y rhaglenni sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau radio annibynnol perthnasol), nid yw gwasanaethau BBC na gwasanaethau DAB lleol yn 'cyfrif' fel gwasanaethau radio annibynnol perthnasol. Y gwasanaethau radio annibynnol perthnasol yw'r gorsafoedd cymunedol a'r gorsafoedd masnachol analog lleol sy'n gweithredu yn y rhanbarth – rhestrir y rhain yn Atodiad 7.

2.9 Mae Atodiad 5 yn cynnwys y cais i newid Fformat a gyflwynwyd gan Nation Radio, lle dadleuir na fyddai'r newid arfaethedig i'r allbwn yn cyfyngu'r amrywiaeth o raglenni sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau radio annibynnol i bobl sy'n byw yn yr ardal, gan fodloni maen prawf (b), ac y byddai'r gwyriad yn ffafriol i gynnal neu hyrwyddo cystadleuaeth deg ac effeithiol, gan fodloni maen prawf (c).

2.10 Rydym yn gofyn am safbwyntiau am y cais, gan roi ystyriaeth benodol i'r meini prawf newid Fformat a nodir yn Adran 106(1A) (b) i (d) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd), fel y nodir uchod.

## Atodiad 1

# Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A1.1 Mae Ofcom yn gofyn am farn a sylwadau ysgrifenedig am y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen **erbyn 5pm ar ddydd Iau 7 Tachwedd 2013.**

A1.2 Mae'n well o lawer gan Ofcom gael ymatebion drwy'r ffurflen ar-lein ar y we yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/nation-radio/howtorespond/form, gan fod hyn yn ein helpu i brosesu'r ymatebion yn gyflym ac yn effeithlon. Byddem yn ddiolchgar hefyd pe gallech ein cynorthwyo drwy gwblhau dalen cyflwyno ymateb (gweler Atodiad 3), i ddangos a oes unrhyw faterion i'w hystyried ai peidio o ran cyfrinachedd. Mae'r ddalen cyflwyno ymateb hon wedi'i chynnwys yn holiadur y ffurflen ar-lein ar y we.

A1.3 Ar gyfer ymatebion mwy i'r ymgynghoriad – yn enwedig y rheini sydd â siartiau, tablau neu ddata eraill – dylid eu hanfon drwy'r e-bost at: paul.boon@ofcom.org.uk, gan atodi eich ymateb mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â dalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad.

A1.4 Neu, gellir anfon yr ymatebion drwy'r post neu ffacs i'r cyfeiriad isod:

Ymgynghoriad Nation Radio
F.A.O. Paul Boon
Senior Radio Executive
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

A1.5 Sylwch nad oes arnom angen copi caled yn ogystal â fersiwn electronig. Bydd Ofcom yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A1.6 Byddai o gymorth pe gallech roi atebion uniongyrchol yn eich ymateb i'r cwestiwn a ofynnir yn y ddogfen hon, yn Atodiad 4. Byddai hefyd o gymorth pe gallech egluro'r rhesymau dros eich barn a sut y byddai'r cynigion yn effeithio arnoch chi.

## Rhagor o wybodaeth

A1.7 Os ydych yn dymuno trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi'u codi yn yr ymgynghoriad hwn, neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch y dull priodol o ymateb, cysylltwch â Paul Boon yn uniongyrchol ar 020 7981 3616.

## Cyfrinachedd

A1.8 Credwn ei bod yn bwysig bod pawb sy'n ymddiddori mewn mater sydd o dan sylw yn cael gweld y farn a fynegwyd gan y rheini sydd wedi ymateb i ymgynghoriadau. Felly, byddwn fel arfer yn cyhoeddi'r holl ymatebion ar ein gwefan, sef www.ofcom.org.uk, cyn gynted ag y byddwn yn eu derbyn, os oes modd. Os ydych yn credu y dylid cadw'ch ymateb yn gyfrinachol, a fyddech cystal â nodi pa ran o'ch

ymateb y dylid ei chadw'n gyfrinachol, neu a ddylid cadw'r cwbl ohono'n gyfrinachol, a nodi pam. A fyddech cystal â rhoi rhannau o'r fath mewn atodiad ar wahân hefyd.

A1.9 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw rhan neu'r cwbl o ymateb yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.10 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae eglurhad pellach o safbwynt Ofcom ar hawliau eiddo deallusol ar ei wefan yn http://www.ofcom.org.uk/about/accoun/disclaimer/

## Y camau nesaf

A1.11 Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad.

A1.12 Sylwch y gallwch gofrestru i gael Diweddariadau am ddim drwy'r post yn tynnu'ch sylw at ddogfennau perthnasol a gyhoeddir gan Ofcom. Mae rhagor o fanylion ar gael yn: http://www.ofcom.org.uk/static/subscribe/select_list.htm

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.13 Mae Ofcom am sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriadau. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A1.14 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y modd y mae Ofcom yn cynnal ei ymgynghoriadau, ffoniwch ein desg gymorth ymgynghori ar 020 7981 3003 neu anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Byddem yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn y grwpiau neu'r unigolion hynny, fel busnesau bach neu fathau penodol o ddefnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.15 Os hoffech drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol gallwch gysylltu â Graham Howell, Ysgrifennydd y Gorfforaeth, sef hyrwyddwr ymgynghori Ofcom:

Graham Howell
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HQ

Ffôn: 020 7981 3601

E-bost graham.howell@ofcom.org.uk

## Atodiad 2

# Egwyddorion ymgynghori Ofcom

A2.1 Mae Ofcom wedi cyhoeddi'r saith egwyddor ganlynol y bydd yn eu dilyn ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

## Cyn yr ymgynghoriad

A2.2 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol â phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

## Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.3 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â hwy, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.4 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu arweiniad byr mewn iaith syml i gyrff llai neu i unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A2.5 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at 10 wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A2.6 Bydd rhywun o fewn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a chyrff sydd â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. 'Hyrwyddwr Ymgynghori' Ofcom hefyd fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef i roi barn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A2.7 Os na fyddwn yn gallu dilyn un o'r egwyddorion hyn, byddwn yn egluro pam.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.8 Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod pawb sy'n ymddiddori mewn mater sydd o dan sylw yn cael gweld barn pobl eraill yn ystod yr ymgynghoriad. Fel arfer, byddem yn cyhoeddi'r holl ymatebion ar ein gwefan. Yn ein datganiad, byddwn yn rhoi rhesymau dros ein penderfyniadau ac yn disgrifio sut mae barn y rhai a fu'n gysylltiedig wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hynny.

## Atodiad 3

# Dalen cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad

A3.1 Er mwyn gweithredu’n dryloyw a dilyn arferion rheoleiddiol da, byddwn yn cyhoeddi’r holl ymatebion i ymgynghoriadau’n llawn ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk

A3.2 Rydym wedi cynhyrchu dalen ar gyfer cyflwyno ymatebion (gweler isod) a byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech anfon un gyda’ch ymateb (mae hon wedi’i chynnwys yn y ffurflen ar-lein ar y we os byddwch yn ymateb fel hyn). Bydd hyn yn ein helpu i brosesu ymatebion yn gyflymach, ac i gadw cyfrinachedd os yw hynny’n briodol.

A3.3 Gellir gwella ansawdd yr ymgynghori drwy gyhoeddi ymatebion cyn i’r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i’r unigolion a’r cyrff hynny sy’n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â’r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly byddai Ofcom yn annog ymatebwyr i gwblhau eu dalen gyflwyno mewn modd sy’n caniatáu i Ofcom gyhoeddi eu hymatebion wrth iddynt ddod i law, yn hytrach nag aros nes bod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben.

A3.4 Mae’n well o lawer gennym gael ymatebion drwy’r ffurflen ar-lein sydd ar y we, sy’n cynnwys y ddalen gyflwyno. Os ydych yn ymateb drwy’r e-bost, y post neu ffacs, gallwch lwytho copi electronig o’r ddalen hon i lawr mewn fformat Word neu RTF oddi ar yr adran ‘Ymgynghoriadau’ ar ein gwefan yn www.ofcom.org.uk/consult/

A3.5 A fyddech cystal â rhoi unrhyw rannau o’ch ymateb y credwch y dylid eu cadw’n gyfrinachol mewn atodiad ar wahân i’ch ymateb, a nodi eich rhesymau dros beidio â chyhoeddi’r rhan hon o’ch ymateb. Gall hyn gynnwys gwybodaeth fel eich cefndir a’ch profiad personol. Os ydych am i’ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, dylech eu rhoi ar eich dalen gyflwyno’n unig, fel na fydd yn rhaid i ni olygu’ch ymateb.

## Dalen cyflwyno ymateb i ymgynghoriad gan Ofcom

### MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad: Ymgynghoriad Nation Radio

At (cyswllt yn Ofcom): Paul Boon

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu gorff/cyrff):

Cyfeiriad (os na chafwyd ef drwy'r e-bost):

### CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb yr ydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dim byd | ☐ | Enw/manylion cyswllt/teitl swydd | ☐ |
| Yr ymateb cyfan | ☐ | Corff | ☐ |
| Rhan o'r ymateb | ☐ | Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? | ☐ |

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw'ch corff gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, crynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol neu'n rhoi modd i'ch adnabod)?

### DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y caiff Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon ymateb drwy'r e-bost, caiff Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys neges e-bost ac atodiadau.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma. ☐

Enw

Llofnod (os darperir copi papur)

**Atodiad 4**

# Cwestiwn yr ymgynghoriad

*C1. A ddylid caniatáu i Nation Radio Ltd wneud y newidiadau y mae'n eu cynnig i Fformat Nation Radio, gan roi ystyriaeth benodol i'r meini prawf statudol a nodir yn Adran 2 yn y ddogfen ymgynghori hon? (Adran 106 (1A) o Ddeddf Darlledu 1990, fel y'i diwygiwyd, sy'n ymwneud â newid Fformat).*

## Atodiad 5

# Cais i newid Fformat Nation Radio

## Trwydded Radio Masnachol Analog: Ffurflen Cais i Newid Fformat

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cais:** | 23 Awst 2013 – diwygiwyd 19 Medi 2013 |
| **Enw’r Orsaf:** | Nation Radio |
| **Yr ardal sydd wedi’i thrwyddedu a rhif y drwydded:** | De Cymru<br>AL327-1 |
| **Deilydd y drwydded:** | Nation Radio Ltd |
| **Enw cyswllt:** | Martin Mumford |

### Manylion y cais i newid Fformat

| | |
|---|---|
| **Cymeriad y Gwasanaeth**<br><br>***Llenwch yr adran hon os ydych chi’n gofyn am newid y rhan hon o’ch fformat*** | **Cymeriad Presennol y Gwasanaeth:**<br><br>**GORSAF ROC MODERN YN BENNAF AR GYFER GWRANDAWYR 15-34 OED. BYDD GENRES CYDNAWS ERAILL YN ATEGU’R ALLBWN, A FYDD HEFYD YN CYNNWYS CERDDORIAETH GAN ARTISTIAID LLEOL**<br><br>**Cymeriad Arfaethedig y Gwasanaeth:**<br>**GORSAF GERDDORIAETH SY'N CANOLBWYNTIO AR GERDDORIAETH ROC, GAN GYNNWYS CERDDORIAETH GAN ARTISTIAID LLEOL, AC WEDI'I HANELU AT DDYNION** |
| **Trefniadau rhannu rhaglenni a/neu drefniadau cydleoli**<br><br>***Llenwch yr adran hon os ydych chi’n gofyn am newid y rhan hon o’ch fformat*** | **Y trefniadau cyfredol:**<br><br>**Y trefniadau newydd arfaethedig:** |
| **Oriau wedi’u gwneud yn lleol a/neu fwletinau newyddion lleol**<br><br>***Llenwch yr adran hon os*** | **Rhwymedigaethau cyfredol:** |

| ***ydych chi'n gofyn am newid y rhan hon o'ch fformat*** | **Y rhwymedigaethau newydd arfaethedig:** |
|---|---|

Gall deilydd trwydded radio masnachol lleol analog wneud cais i Ofcom am gael newid Fformat yr orsaf. Wrth wneud unrhyw gais, dylid defnyddio'r drefn a ddangosir ar y ffurflen hon, a dylai gyd-fynd â'r gweithdrefnau y mae Ofcom wedi'u cyhoeddi ar gyfer newidiadau mewn Fformat (ar gael ar ein gwefan yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/formats-content/changes/)

O dan adran 106(1A) o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd), ni fydd Ofcom ond yn cael rhoi caniatâd ar gyfer newid Fformat os yw'n fodlon bod *o leiaf* un o'r pum maen prawf statudol canlynol wedi'i fodloni:

*(a)* *na fyddai'r gwyriad yn newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol;*

*(b)* *na fyddai'r gwyriad yn cyfyngu ystod y rhaglenni sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau radio annibynnol perthnasol i bobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth y trwyddedwyd y gwasanaeth i ddarparu ar ei chyfer;*

*(c)* *y byddai'r gwyriad yn ffafriol i gynnal neu hyrwyddo cystadleuaeth deg ac effeithiol;*

*(d)* *bod tystiolaeth bod galw sylweddol ymysg pobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno am y newid a fyddai'n deillio o'r gwyriad, neu gefnogaeth sylweddol ganddynt iddo; neu*

*(e)* *y byddai (i) y gwyriad yn digwydd wrth i raglenni yn y gwasanaeth trwyddedig beidio â chael eu gwneud ar safleoedd yn yr ardal neu'r gymdogaeth y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer, ond (ii) byddai'r rhaglenni hynny yn parhau i gael eu gwneud yn rhannol neu'n gyfan gwbl ar safleoedd yn yr ardal gymeradwy (fel y diffiniwyd yn adran 314 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (cynnwys lleol a chymeriad gwasanaethau)).*

Dim ond un o'r pum maen prawf hyn y mae angen ei fodloni er mwyn i Ofcom ganiatáu'r newid arfaethedig. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw Ofcom o'r farn bod y newid arfaethedig yn bodloni un neu ragor o'r meini prawf statudol, efallai y bydd rhesymau (gan ddibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos) pam na chaiff Ofcom roi caniatâd ar gyfer y newid arfaethedig. Gellir gweld y meini prawf ychwanegol hyn y bydd Ofcom yn eu hystyried wrth arfer y disgresiwn hwn yn:
http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/formats-content/changes/

Dylai ymgeiswyr nodi bod adran 106ZA o'r un Ddeddf (fel y'i diwygiwyd) yn mynnu ei bod yn rhaid ymgynghori ar newid arfaethedig *nad yw'n* bodloni'r cyntaf neu'r olaf o'r meini prawf hyn (h.y. newid y mae Ofcom o'r farn y *byddai* neu y *gallai* newid cymeriad y gwasanaeth yn sylweddol, neu nad yw'n berthnasol i wreiddiau rhaglenni lleol), os ydyw i'w ystyried ymhellach o dan unrhyw un o'r tri maen prawf arall. [#].

Os bydd Ofcom yn cael cais i newid Fformat a'i fod o'r farn *nad yw* maen prawf (a) neu (e) wedi'i fodloni, bydd yn gofyn am gadarnhad gan yr ymgeisydd ynghylch a yw'n dymuno bwrw ymlaen â'r cais (ac, os yw'n dymuno gwneud hynny, a yw'n dymuno newid ei gyflwyniad neu roi un yn ei le gan gofio ei bod yn rhaid ei gyhoeddi).

**A fyddech cystal â nodi'r maen prawf neu'r meini prawf statudol a nodir yn adran 106(1A) o Ddeddf Darlledu 1990, a fodlonir yn eich barn chi mewn perthynas â'r cais hwn i newid Fformat, ynghyd â'r rhesymau dros hyn:**

*(b) na fyddai'r gwyriad yn cyfyngu ystod y rhaglenni sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau radio annibynnol perthnasol i bobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth y trwyddedwyd y gwasanaeth i ddarparu ar ei chyfer;*

**Trosolwg**
Credwn fod y cais, fel yr amlinellwyd, yn dangos datblygiad rhesymegol yn amgylchiadau'r farchnad, sydd wedi newid. Bydd yn helpu i gryfhau'r amrywiaeth eang o wasanaethau rhanbarthol heb newid yr allbwn na tharfu arno'n sylweddol.

Bydd yn caniatáu i ni gyflwyno genre cerddoriaeth rydym wedi'i hyrwyddo, ac i ddatblygu ein cynulleidfaoedd heb unrhyw fath o ddieithrio.

Mae ein cais yn nodi'n fanwl ein rhesymau dros gredu bod y rhwystrau rheoleiddiol uchod wedi'u datrys at ddibenion y cais hwn.

Byddwn yn edrych ar bob un yn ei dro:

<u>Cyfyngu gwasanaethau</u> : Yn gryno, gan nad oes gan unrhyw brif wasanaeth arall yn Ne Cymru, heblaw Nation, darged cerddoriaeth roc, ac nad oes dim un yn denu dynion yn bennaf fel cynulleidfa, ni all y newid hwn gyfyngu ystod y gwasanaethau radio annibynnol perthnasol. Rydym yn defnyddio cymariaethau ac yn crynhoi'r sefyllfa bresennol er mwyn dangos hyn.

<u>Cystadleuaeth deg ac effeithiol</u> : Rydym yn nodi'n fanwl y newidiadau sydd wedi digwydd yn y rhanbarth, ac rydym wedi dod i'r casgliad y byddai'r cais, pe bai'n cael ei gytuno, yn dod ag eglurder i gyd-destun darlledu sydd wedi wynebu newid sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac y byddai'n sicr yn dda o beth i'r gwrandawyr ac i gystadleuaeth.

**MAEN PRAWF B … *(b) na fyddai'r gwyriad yn cyfyngu ystod y rhaglenni sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau radio annibynnol perthnasol i bobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth y trwyddedwyd y gwasanaeth i ddarparu ar ei chyfer;***

Mae gan Nation darged cerddoriaeth roc, ac fel y gellid ei ddisgwyl, dynion yw'r rhan fwyaf o gynulleidfa'r orsaf o ganlyniad i hynny. Gyda'r ddwy nodwedd honno, mae Nation yn unigryw yn y farchnad ranbarthol. Nid ydym yn bwriadu cyfyngu unrhyw elfen o'n hallbwn, a bydd y nodweddion hynny'n bendant yn aros yn rhan o'r orsaf. Yn benodol, bydd Nation yn parhau i hyrwyddo artistiaid roc o Gymru, fel Manic Street Preachers, Stereophonics a Kids in Glass Houses. Rydym yn awyddus i ddatblygu ein cynulleidfa drwy genre yn hytrach na drwy ystod oed, gan ein bod yn credu bod genre yn fwy perthnasol o lawer yn y farchnad amlgyfrwng sy'n bodoli heddiw.

Rydym wedi nodi isod y gwasanaethau perthnasol yn yr ardal. (Nid ydym wedi ystyried gorsafoedd lleol Bryste gan nad ydynt yn olygyddol yn targedu De Cymru). Gan fod y gorsafoedd cymunedol i gyd yn gwasanaethu ardal ddaearyddol neu gymuned fuddiant fach a phenodol, ac nad ydynt wedi'u cynnwys yn RAJAR, nid ydynt wedi'u cynnwys yn y dadansoddiadau ehangach o gerddoriaeth er ein bod yn gweld wrth edrych ar ymrwymiadau eu trwydded nad oes dim un yn canolbwyntio ar

roc.

Gan nad oes gan unrhyw wasanaeth arall yn Ne Cymru, ar wahân i Nation, darged cerddoriaeth roc, ac nad oes dim un yn denu cynulleidfa o ddynion yn bennaf, mae'n amlwg na fydd y newid hwn yn cyfyngu ystod y gwasanaethau radio annibynnol perthnasol yn Ne Cymru.

| | Lleol | Cymunedol | Rhanbarthol | Targed Oed | Targed Cerddoriaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| Nation Hits | X | | | 35+ | Caneuon Hawdd Gwrando Arnynt/ Clasuron |
| Bridge | X | | | 15+ | Eang |
| Capital | X | | | <44 | Cyfoes/Siart |
| Gold | X | | | 35+ | Caneuon Pop Poblogaidd |
| Radio Carmarthenshire | X | | | 15+ | Eang |
| Kiss | | | X | 15-34 | Caneuon Rhythmig |
| Real | | | X | 25+ | A/C Gwasanaeth Llawn |
| The Wave | X | | | <40 | Caneuon y Siartiau'n Bennaf |
| Swansea Sound | X | | | 35+ | Pop Poblogaidd |
| GTFM | | X | | | Eang |
| Bro Radio | | X | | | Eang |
| Radio Tircoed | | X | | | Eang |
| Radio Cardiff | | X | | | MOBO |
| Nation | | | X | | Roc |

**Y Cefndir**

Mae radio masnachol – a'r farchnad radio a sain ehangach – wedi newid yn aruthrol ers i'r ail drwydded radio ranbarthol hon ar gyfer De Cymru gael ei dyfarnu yn 2007.

Mae gan Nation a'i rhiant-gwmni, sef Town and Country Broadcasting, wybodaeth helaeth am farchnad De Cymru, gan eu bod wedi gweithredu yn y rhanbarth er 2002. Mae'r prif orsafoedd yn y farchnad, sef Real, Capital a Kiss, wedi symud fwyfwy oddi wrth raglennu lleol, gyda'r rhan fwyaf o'u cynnwys, a'u refeniw, yn cael eu cynhyrchu y tu allan i Gymru erbyn hyn.

Mae Nation yn mynd i'r cyfeiriad arall, gyda'r nod o fod yn frand cryf a chenedlaethol o Gymru. Ochr yn ochr â'i hôl troed FM yng Nghaerdydd ac yn Abertawe, mae Nation bron â chyrraedd ei nod o ran darpariaeth radio digidol DAB ar draws De a Gorllewin Cymru a Gogledd-ddwyrain Cymru. Y flwyddyn nesaf, a chymryd y bydd y cais hwn yn llwyddiannus, bydd Nation hefyd yn lansio ei hun yng Ngogledd-orllewin Cymru, gan roi darpariaeth effeithiol ledled Cymru. Dylid nodi mai Nation fydd yr unig orsaf fasnachol i wasanaethu Cymru gyfan sy'n creu'r cyfan o'i hallbwn yng Nghymru. Wrth i'r newid i'r digidol agosáu, mae angen i ni fod yn y sefyllfa orau bosibl i wasanaethu ein cynulleidfaoedd ar draws y wlad.

Pan aethom ati i edrych ar opsiynau ar gyfer datblygu'r hyn a fyddai'n gwneud yr orsaf yn unigryw (gan ystyried y cyd-destun radio masnachol ar hyn o bryd), edrychasom ar rinweddau naill ai targed oed (15-34) neu darged genre (roc). Mae'n amlwg o edrych ar ddadansoddiadau o'r farchnad bod y ddemograffeg oed iau yn cael eu gwasanaethu'n dda iawn ac y byddem ni'n fwy unigryw pe baem yn canolbwyntio ar genre cerddoriaeth yn hytrach nag ar oed. Hefyd, mae ein gwaith monitro cerddoriaeth (yr ydym wedi'i anfon ymlaen i Ofcom) yn cadarnhau bod

genres cerddoriaeth sy'n apelio at wrandawyr iau (trefol/rhythmig/siart) yn gryf iawn ar y gorsafoedd masnachol presennol.

Mae'r fformat diwygiedig yn enghraifft o ddatblygiad, nid o chwyldro, a bydd yn parhau i apelio at farchnad darged debyg, gyda'i chymeriad wedi'i seilio ar fformat cerddoriaeth roc sy'n anelu at ddynion yn benodol. Mae'n amlwg bod newidiadau eraill i fformat sydd wedi cael eu caniatáu ar draws y DU wedi gwella perthnasedd ac apêl gorsafoedd radio rhanbarthol, a bydd yr un peth yn wir ar gyfer Nation, a fydd yn amlwg yn creu mwy o gydbwysedd wrth gofio am y gwasanaethau eraill yn y rhanbarth sydd wedi'u hanelu at fenywod.

**MAEN PRAWF C …** ***(c) y byddai'r gwyriad yn ffafriol i gynnal neu hyrwyddo cystadleuaeth deg ac effeithiol;***

Mae llawer o'r gwaith ymchwil a'r cefndir a gynigwn yma hefyd yn berthnasol i'w hystyried o dan Faen Prawf B, ond rydym yn teimlo bod y ffaith y bydd cyd-destun radio cliriach yn cael ei greu yn yr ardal, a hwnnw'n ffafriol i gystadleuaeth deg ac effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol ar wrando, hefyd yn berthnasol i'r ddadl.

Credwn fod newidiadau diweddar yn y farchnad wedi agor bwlch sylweddol yn y ddarpariaeth radio masnachol lleol ar gyfer dynion yn Ne Cymru. Er enghraifft, mae Real wedi gollwng cryn dipyn o'i allbwn sgwrsio sy'n anelu at ddynion, fel ei rhaglen chwaraeon a oedd yn cael ei chynnal bob nos yn ystod oriau brig, gan symud at allbwn cerddoriaeth sy'n anelu fwy at fenywod.  Caiff effaith hyn ei chadarnhau wrth edrych ar RAJAR a gwaith monitro cerddoriaeth, sy'n dangos bod y gorsafoedd presennol yn apelio llawer mwy at fenywod. Gwnaethom nodi, gyda chryn ddiddordeb, fod Real Radio, a oedd yn orsaf a oedd yn canolbwyntio'n fawr ar ddynion adeg y ceisiadau ym mis Rhagfyr 2006, gyda 56% o'i oriau gwrando gan ddynion, wedi gwyrdroi ei sefyllfa yn y farchnad yn llwyr. O blith y gwasanaethau eraill, dim ond Gold – gorsaf AM sy'n wasanaeth rhwydwaith o Lundain yn bennaf – sy'n ceisio anelu at ddynion, ond mae caneuon pop poblogaidd yr orsaf yn barod yn wahanol i allbwn Nation, sy'n canolbwyntio ar roc, a dim ond is-ardal yn ôl troed ehangach Nation Radio y mae'n ei gwasanaethu.  Mae apêl ABC1 Nation hefyd yn unigryw, gyda'r fformat yn parhau i apelio at ddynion mewn grwpiau cymdeithasol uwch wrth i ni gyfuno cerddoriaeth roc a gwybodaeth, sgwrsio, a newyddion lleol perthnasol.

| | Dynion % | Menywod % | ABC 1 | C2DE |
|---|---|---|---|---|
| Nation | 63 | 37 | 55 | 45 |
| Real | 37 | 63 | 33 | 67 |
| Kiss | 44 | 56 | 39 | 61 |
| Capital | 33 | 67 | 35 | 65 |
| Wave | 42 | 58 | 41 | 59 |
| Nation Hits | 44 | 56 | 45 | 55 |
| Bridge | 39 | 61 | 18 | 82 |
| Gold | 59 | 41 | 7 | 93 |
| S Sound | 39 | 61 | 33 | 67 |

Ffynhonnell; RAJAR Mehefin 2013

Yng nghyd-destun y farchnad ehangach, mae radio masnachol yn dal i dangyflawni yng Nghymru, gyda gorsafoedd y BBC yn cyfrif am 58% o'r holl oriau gwrando yn Ne Cymru – sy'n gyfran uwch ar gyfer y sector hwn nag yn y DU (54%). Yn wir, mae cyfran y farchnad sy'n gwrando ar orsafoedd masnachol lleol yng Nghymru gryn dipyn yn is nag yn rhanbarthau neu wledydd eraill y DU, gan gyfrif am ddim ond 25%

o'r holl wrando. Mae hyn yn awgrymu bod cyfle go iawn i ddatblygu mwy ar radio masnachol yng Nghymru.

Mae dadansoddiadau RAJAR pellach yn cadarnhau bod cyfran y dynion sy'n gwrando ar Radio Masnachol wedi gostwng o 40% i ddim ond 35% er 2007, gydag amryw yn symud i BBC Radio 2, ac mae nifer y dynion sy'n gwrando ar Radio 2 wedi codi o 272,000 i 331,000 er 2007. Mae twf a goruchafiaeth radio cenedlaethol y BBC yn peryglu hyfywedd radio masnachol yn Ne Cymru. Mae cyrhaeddiad BBC Radio 2 yn 34% erbyn hyn yn Ne Cymru (DU 29%) o'i gymharu â 28% (DU 27%) pan ddyfarnwyd y drwydded ym mis Mehefin 2007. Mae BBC Radio 1 wedi bod yn fwy sefydlog gyda chyrhaeddiad o 25% heddiw (21% DU) o'i gymharu â 26% yn 2007 (DU 21%).

Mae RAJAR hefyd yn cadarnhau'r dystiolaeth sy'n dangos gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n gwrando ar y radio. Y realiti yw bod y rheini sy'n mwynhau cerddoriaeth erbyn hyn yn cael eu cerddoriaeth ar alw pryd bynnag a ble bynnag y maent yn ei ddymuno. Mae newidiadau diweddar eraill mewn fformat gan weithredwyr yn y DU, fel Kerrang yng Nghanolbarth Lloegr, wedi nodi themâu tebyg, sydd wedi arwain at gynnydd yn oed cyfartalog y gwrandawyr. Mae hyn yn wir ar gyfer Nation hefyd, lle mae'r oed cyfartalog wedi cynyddu o 32.8 yn 2009 i 34.9 yn 2013 (Ch1 2009 o'i gymharu â Ch2 2013 RAJAR). Mae oriau gwrando Nation wedi haneru o 1.1 m awr i ddim ond 600,000 awr yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae llwyddiant BBC 6 Music, sydd ag wyth gwaith ei chynulleidfa yn Ne Cymru erbyn hyn o'i gymharu ag adeg cyflwyno'r cais am drwydded, hefyd wedi gwneud tolc yn y cyfle a gynigir yn y farchnad mewn perthynas â demograffeg iau.

Er bod Nation wedi gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ei hunaniaeth a'i brand, mae ei gallu i symud gyda gofynion a chwaeth ei chynulleidfa yn gyfyngedig. Adeg y cais, nodwyd "o ran cerddoriaeth, genres roc sy'n cael eu cynrychioli leiaf, ond am y rhain y mae'r mwyaf o alw gan gynulleidfaoedd". Serch hynny, mae apêl Roc Modern ei hun fel ei is-genre craidd wedi lleihau, ac rydym wedi ei chael yn anodd datblygu gorsaf ehangach hyfyw ar sail yr is-genre hwn yn unig. Dangosir hyn yng ngostyngiad gwasanaethau eraill sy'n canolbwyntio ar roc modern. Mae nifer ohonynt wedi dod i ben ar DAB a/neu FM yn ystod y blynyddoedd diwethaf, hyd yn oed ar lefel genedlaethol, lle bu'n anodd sicrhau hyfywedd.

Mae Nation yn dal gryn dipyn ar ei hôl hi o ystyried rhagolygon refeniw rhesymol ei chais, ac mae colli cynulleidfaoedd posibl yn y grwpiau oed iau yn bygwth hyfywedd yr orsaf erbyn hyn. Heb i'r oriau gwrando wella'n sylweddol, mae bron yn sicr y bydd yn rhaid i Nation leihau nifer yr oriau a gynhyrchir yng Nghymru, neu hyd yn oed ystyried ymuno â rhwydwaith cenedlaethol, a fyddai'n amddifadu Cymru o ragor o raglenni lleol ac yn peryglu swyddi lleol. Mae nifer o wasanaethau cerddoriaeth arbenigol wedi esblygu'n fwy radical na'r hyn rydym ni'n gofyn amdano (Jazz FM i Smooth, Choice i Capital, XFM i Capital, Original i Jack). Bydd Nation Radio yn parhau i roi sylw i'r ystod eang o genres roc yr oedd y cais gwreiddiol yn dangos nad oeddent yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn allbwn cerddoriaeth gorsafoedd masnachol presennol De Cymru. Mae'r genres hyn yn cael llai byth o gynrychiolaeth y dyddiau hyn o'i gymharu â 2007.

Er nad yw'n un o ystyriaethau ffurfiol Ofcom, credwn ei bod yn bwysig tynnu sylw at y ffaith y bydd newidiadau'n ein galluogi i gystadlu'n well am gynulleidfaoedd gyda BBC Radio, sydd wedi bod yn cynyddu ei gyfran o wrandawyr sy'n ddynion yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fel y mae ein dadansoddiadau RAJAR yn ei ddangos. Yn wir, mae cryfder y lefelau gwrando ar BBC Radio a diffyg ymrwymiad gorsafoedd eraill i roc fel genre yn golygu y byddwn yn unigryw ac mewn sefyllfa well o lawer i gynyddu

apêl radio masnachol yn Ne Cymru.

**Darparwch unrhyw wybodaeth a/neu dystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r newid(iadau) arfaethedig isod. Yn benodol, efallai y bydd yr ymgeisydd yn dymuno amlinellu sut mae'n gweld y newid arfaethedig yn cyd-fynd â pholisi cais i newid Fformat sydd wedi'i gyhoeddi gan Ofcom (http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/formats-content/changes/ ) a chanllawiau Lleolrwydd Ofcom hefyd, sy'n cynnwys ein polisi cydleoli a rhannu rhaglenni (http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/localness/ ).**

Yn ein cais blaenorol i newid Fformat yn 2009, gwnaethom nodi, fel y dyfarnwyd yn wreiddiol, mai bwriad y drwydded hon oedd bod yn rhan o strategaeth frandio genedlaethol ar gyfer XFM.

O dan berchnogaeth annibynnol Town and Country Broadcasting Ltd, mae Nation wedi datblygu'n orsaf radio masnachol Gymreig ddiffiniedig, ac rydym wedi buddsoddi yn y gwaith o achub yr orsaf rhag iddi gael ei chau, ac yn fwy diweddar yn y gwaith o'i datblygu fel gorsaf genedlaethol ar gyfer Cymru.

Fodd bynnag, heb fireinio'r Fformat, nid yw lefelau presennol y gynulleidfa yn hyfyw, a dim ond gyda chefnogaeth ei rhiant-gwmni y mae'n gallu bwrw ymlaen. Er mwyn creu refeniw ychwanegol a gyrru'r orsaf yn ei blaen, mae angen i ni ddenu mwy o wrandawyr. Mae'r ffaith bod Real Radio wedi symud at wasanaeth sy'n canolbwyntio ar fenywod wedi rhoi cyfle i gynnig gorsaf ag apêl ehangach sydd wedi'i hanelu at ddynion.

Mae gwaith rheoleiddio da yn ystyried marchnadoedd a sefyllfaoedd sy'n datblygu, ac rydym o'r farn bod llai o wasanaethau radio masnachol yn cael eu creu yng Nghymru nag erioed o'r blaen. Oherwydd hyn, mae'n bwysig cadw swyddi a chyfleoedd i bobl yng Nghymru yn yr ardaloedd lle mae'r gorsafoedd hyn wedi'u lleoli. Bydd diwygio'r fformat yn cyfrannu at greu sector radio masnachol cryfach yng Nghymru.

*Nodiadau*

# Gall Ofcom gymeradwyo newid o dan unrhyw un o feini prawf (b) i (d) heb ymgynghori, neu yn dilyn ymgynghoriad sy'n para llai na 28 diwrnod, os yw Ofcom o'r farn y byddai cynnal ymgynghoriad o gwbl, neu am 28 diwrnod neu ragor, yn arwain at oedi a fyddai'n debygol o niweidio buddiannau deilydd y drwydded. Gall Ofcom hefyd dynnu unrhyw wybodaeth gyfrinachol a gyflwynir gan ddeilydd y drwydded at ddibenion ymgynghori.

**Fersiwn 6 – diwygiwyd Ebrill 2010**

## Atodiad 6

# Fformat Presennol Nation Radio

## FFORMAT GORSAF RADIO MASNACHOL

**NATION RADIO**

### Cymeriad Gwasanaeth

**GORSAF ROC MODERN YN BENNAF AR GYFER GWRANDAWYR 15-34 OED. BYDD GENRES CYDNAWS ERAILL YN ATEGU'R ALLBWN, A FYDD HEFYD YN CYNNWYS CERDDORIAETH GAN ARTISTIAID LLEOL**

| | |
|---|---|
| **Ardal drwyddedig** | **De Cymru (fel yn hysbyseb Ofcom)** |
| **Amledd** | **106.8 a 107.3 MHz** |
| **Hyd y gwasanaeth** | **24 awr** |
| **Oriau wedi'u gwneud yn lleol** | **O leiaf 10 awr y dydd yn ystod y dydd yn yr wythnos (mae'n rhaid i hyn gynnwys brecwast).**<br>**O leiaf 4 awr yn ystod y dydd ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.** |
| **Bwletinau newyddion** | **Bob awr o leiaf yn ystod oriau brig** |

**Trefniadau a rennir (os yw'n berthnasol)**

| | |
|---|---|
| **Cydleoliad** | **Dim trefniadau** |
| **Rhannu rhaglenni** | **Dim trefniadau** |

**Diffiniadau**

| | |
|---|---|
| Sgwrsio / Cerddoriaeth | Nid yw'n cynnwys hysbysebu, hyrwyddiadau ar gyfer hyrwyddo/rhaglenni, a chredydau noddwyr |
| Oriau brig | Amser brecwast ac amser gyrru yn ystod yr wythnos, ac amser brecwast hwyr ar benwythnosau |
| Yn ystod y dydd | 0600 i 1900 yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau |
| Gwneud yn lleol | Cynhyrchu a chyflwyno o fewn yr ardal drwyddedig |

**Poblogaeth y Dalgylch Mesuredig : 873,636** **Rhif trwydded : AL 327-1**

**Nodiadau**

Dylid darllen y Fformat hwn ar y cyd â Chanllawiau Lleolrwydd Ofcom sydd wedi'u cyhoeddi, fel y'u diweddarwyd gyda thestun ychwanegol o "The Future of Radio : The Next Phase" (2007)

**CYTUNWYD**
**CHWEFROR 2010**

## Atodiad 7

# Gorsafoedd radio masnachol a chymunedol eraill yn ardal De Cymru

**Gorsafoedd radio masnachol**

Real Radio (De Cymru)
http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/analogue/al000261ba1realradio.htm

Kiss West (Aber Afon Hafren)
http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/analogue/al000167ba1kiss.htm

Capital South Wales (Caerdydd/Casnewydd)
http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/analogue/al000020ba1capitalfm.htm

Gold South Wales (Caerdydd/Casnewydd)
http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/analogue/al000019ba1gold.htm

The Wave (Abertawe)
http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/analogue/al000091ba1thewave.htm

Swansea Sound (Abertawe)
http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/analogue/al000090ba1swanseasound.htm

Nation Hits (Abertawe)
http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/analogue/al000306ba1nationhits!.htm

Radio Carmarthenshire
http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/analogue/al000289ba1radiocarmarthenshirescarletfm.htm

Bridge FM (Pen-y-bont ar Ogwr)
http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/analogue/al000257ba1bridgefm.htm

**Gorsafoedd radio cymunedol**

Radio Tircoed (Abertawe)
http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/community/cr000111ba1radiotircoed.htm

GTFM
http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/community/cr000004ba1gtfmpontypridd.htm

Bro Radio
http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/community/cr000122ba1broradio.htm

Radio Cardiff
http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/community/cr000094ba1radiocardiff.htm